# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1470(FM) a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Rhagfyr 2008

**At David Lloyd:**

Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn imi ysgrifennu atoch i ateb eich cwestiwn atodol ar 25 Tachwedd ynghylch faint o dai sydd wedi cael eu hinswleiddio am ddim ers cyhoeddiad Gordon Brown.

Cyhoeddodd Prif Weinidog Prydain ym mis Medi bod y cwmnïau ynni wedi ymrwymo i fuddsoddi rhyw £910 miliwn i helpu cartrefi i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon trwy raglen y Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT) a'r Rhaglen Arbed Ynni Gymunedol (CESP) newydd. Mae DEFRA dal wrthi'n meddwl sut yn union y dylai drefnu CESP ac mae fy swyddogion mewn cysylltiad clos â'u cydweithwyr yn Lloegr ar hyn.

Mae'n bwysig cofio nad yw CERT na CESP yn rhaglenni sydd wedi'u datganoli, ac er ein bod yn gallu gofyn i Eaga, sy'n rheoli ein Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) ni, i gyhoeddi data ar nifer y cartrefi yng Nghymru sy'n cael help i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon (rhyw 18,500 o gartrefi yn 2007-08), ni allwn fynnu bod cwmnïau ynni'n cyhoeddi data ar lefel Cymru am CERT a CESP. Mae gofyn i gwmnïau ynni ddarparu data am eu gweithgarwch o dan y rhaglenni i Ofgem, ond dim ond i ddangos faint o garbon sydd wedi'i arbed, nid nifer y tai sydd wedi'u trin. Nid oes ymrwymiad i arbed lefel benodol o garbon yng Nghymru na chyhoeddi data ar lefel Cymru.

O gael eu siâr, dylai Cymru gael gwerth rhyw £60 miliwn y flwyddyn o arian CERT dros y 3 blynedd nesaf ond rwy'n poeni, heb ddata am weithgarwch y cwmnïau ynni nac am lefel eu buddsoddiad yng Nghymru, ni allwn fod yn siŵr nad ydym yn cael y gorau o'r arian sydd ar gael i gartrefi Cymru i'w helpu i ddefnyddio ynni'n fwy effeithiol. Dyna un o'r rhesymau pam y gofynnais i Gadeirydd y Grŵp Cynghori ar Dlodi Tanwydd arwain cyfarfod gyda 6 o'r prif gwmnïau ynni a'r Energy Retailers Assocation, ar 2 Rhagfyr.

Rwy'n credu mai cydweithio â'r cwmnïau ynni yw'r ffordd orau ymlaen i fynd i'r afael â hyn a phethau eraill. Mae'n dda gennyf ddweud iddyn nhw gael cyfarfod buddiol iawn a'u bod wedi cytuno i gwrdd eto'n rheolaidd. Dywedodd y cwmnïau ynni yn y cyfarfod y byddai modd rhannu'r data y maen nhw'n ei roi i Ofgem i ddangos yr arbedion carbon ar lefel Cymru ac y bydden nhw'n gallu defnyddio'r ffigurau hynny i amcangyfrif nifer y cartrefi yng Nghymru sydd wedi cael arian. Rwy wedi gofyn i'm swyddogion siarad ag Ofgem am hyn a byddaf yn rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad beth fydd canlyniadau'r trafodaethau hyn.